# CYNGOR BRO MACHNO

**Cofnodion** cyfarfod 12 Mawrth 2015 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** D Gwyndaf (Cadeirydd), Aled Roberts, Eryl Owain, Dafydd Hughes, Eifion Davies, Geraint Thomas, Colin Jones a Cyril Lewis.

Croeswyd i'r cyfarfod nifer o aelodau o'r cyhoedd o Benmachno a Betws-y-coed i ddatgan eu barn ynglŷn â chynllun RW Energy i gynhyrchu trydan dŵr o afon Conwy. Clywyd ganddynt eu pryderon am effaith y cynllun ar yr amgylchedd a buddiannau rhai oedd yn defnyddio'r afon i bwrpas hamdden megis canŵio. Diolchwyd iddynt am ddod gan y cadeirydd.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 12 Mawrth fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Maes Parcio'r Neuadd Goffa** – Nid oedd ymateb pellach wedi dod gan Bwyllgor y Neuadd Goffa.

**Toiledau** - Er i Gyngor Conwy gael gwybod ym mis Mawrth bod y Cyngor Bro yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am y toiledau, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb pellach.

**Gwaharddiadau parcio** – aros am ymateb gan Gyngor Conwy ynglŷn â linellau melyn.

**Cwt Hers** – penderfynwyd cysylltu eto efo'r tenant blaenorol ynglŷn â chlirio'r cwt.

**Pwyllgor Un Llais Cymru** – cafwyd adroddiad gan y clerc o gyfarfod ym Metws-y-coed i drafod dyfodol cynghorau cymuned. Mae bwriad i leihau'r nifer o gynghorau cymuned fel y byddai un cyngor yn gwasanaethu ardal eang gydag ysgrifennydd cyflogedig llawn amser. Mynegwyd pryderon y byddai hyn yn mynd â democratiaeth ymhellach oddi wrth yr etholwyr, gyda llai o gynrychiolwyr o'r ardaloedd gyda'r nifer lleiaf o etholwyr.

**Cais Cynllunio Beudy Hafod Fraith** – Dim gwrthwynebiad os oedd y cynllun o

fewn rheolau cynllunio'r Parc Cenedlaethol.

**Cais Cynllunio Trydan Dŵr Afon Conwy** – ar ôl trafodaeth drylwyr, penderfynwyd datgan cefnogaeth mewn egwyddor i'r cais ond gan gyflwyno'r sylwadau canlynol:

1. Angen paratoi asesiad effaith ar lif y traffig ar yr A5 a'r B4406 a sicrhau cyn lleied o rwystr â phosibl.
2. Gofalu na fydd effaith niweidiol parhaol ar ecoleg afon Conwy a'r cyffiniau o ran cyflwr y dŵr, y pysgod a'r bywyd gwyllt.
3. Y dylid gwneud pob ymdrech, os yw'r cynllun yn mynd rhagddo, i ddefnyddio gweithwyr lleol yn ystod y cyfnod adeiladu.
4. Y dylid ystyried yr effaith posib ar fusnesau lleol, yn arbennig y rhai sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr, yn ystod y cyfnod adeiladu.
5. Y dylid ystyried effaith y cynllun ar gapasiti'r grid lleol i ddargludo trydan allan o'r ardal ac effaith hynny ar gynlluniau trydan dŵr bach y gallent gael eu cyflwyno yn y dyfodol.